TAFLEN GWYBODAETH

Gwneud Cais am Addasiadau

Os ydych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref gydag anabledd neu bryder iechyd sy'n golygu eich bod yn cael problemau gyda mynd allan, anhawster wrth symud o gwmpas neu gyflawni tasgau dydd i ddydd yn ddiogel yn eich cartref, yna, efallai gall Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) eich cynorthwyo.

Beth yw Addasiad?

Addasiad yw newid ffisegol i'ch cartref sydd o gymorth i chi gael mynediad mewn ac allan o'ch cartref, gwella symudedd o fewn eich cartref a mynediad diogel at gyfleusterau hanfodol yn y prif rannau o'ch cartref. Mae dau fath o addasiad; Mân Addasiad ac Addasiad Sylweddol.

Mân Addasiadau:

Gall Mân Addasiadau gynnwys offer fel:

- Rheiliau llaw
- Canllawiau coes mop
- Blwch goriad diogel
- Hanner step
- Goleuadau ychwanegol

Mae'r addasiadau hyn ar gael drwy gysylltu â CCG yn uniongyrchol ar 0300 123 8084 neu drwy e-bost ymholiadau@ccgwynedd.org.uk.

Addasiadau Sylweddol:

Gall Addasiadau Sylweddol gynnwys offer fel:

- Lifft grisiau
- Cawod mynediad gwastad
- Ramp
- Lledu drysau

Byddai angen cynnal asesiad ac cael argymhelliad gan Therapydd Galwedigaethol cyn gwneud yr addasiadau hyn.

Nodwch os gwelwch yn dda:
Pe baech yn derbyn addasiad sydd angen ei wasanaethu, cynnal a chadw (fel lifft grisiau, lifft drwy'r llawr, neu hoist trac nenfwd ac ati), bydd angen i chi dalu tâl gwasanaeth wythnosol. Gweler 'Taflen Wybodaeth Tâl Gwasanaeth Addasiadau' am ragor o wybodaeth ar daliadau gwasanaeth.

Sut mae trefnu asesiad ar gyfer Addasiad Sylweddol?

Gellwch ofyn am asesiad Therapydd Galwedigaethol drwy gysylltu gydag Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol eich Awdurdod Leol.

Bydd asesiad yn penderfynu'r math o addasiad sydd ei angen, neu, fel arall, bydd y Therapydd Galwedigaethol yn eich cynghori ar y technegau gorau, offer a gwasanaethau i gwrdd gyda'ch anghenion.

Beth sy'n digwydd pe bai'r Therapydd Galwedigaethol yn argymell Addasiad Sylweddol?

Mae'r cais yn cael ei gyflwyno i Banel Addasiadau CCG. Bydd y Panel Addasiadau, wedyn, yn argymell y datrysiad mwyaf priodol i gwrdd gyda'ch anghenion.

Yn ogystal ag asesiad gan y Therapydd Galwedigaethol cyn y Panel Addasiadau, efallai bydd aelod o'r Tîm Gwasanaethau Tenantiaeth yn ymweld â chi i asesu eich sefyllfa adref/teulu. Bydd y Tîm Gwasanaethau Tenantiaeth yn cynnig cyngor o safbwynt tai ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych o bosib o ran eich cais am addasiad.

Yn parhau drosodd >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

TAFLEN GWYBODAETH

Gwneud Cais am Addasiadau

Efallai bydd y Therapydd Galwedigaethol neu'r Panel Addasiadau yn penderfynu nad addasu eich cartref yw'r dewis gorau i gwrdd â'ch anghenion tymor hir. Byddant yn ystyried datrysiadau posibl eraill, a allai gynnwys symud i eiddo mwy addas a fyddai'n cwrdd a'ch anghenion hir dymor.

Pe na bai eich cais am addasiad yn cael ei gymeradwyo, bydd y Panel Addasiadau yn cadarnhau eu penderfyniad i wrthod y cais drwy lythyr. Peidiwch ag oedi rhag cysylltu gyda CCG ar 0300 123 8084 i drafod penderfyniad y Panel.

Beth sy'n digwydd pe bai'r cais am Addasiad Sylweddol yn cael ei gymeradwyo?

Bydd y Panel Addasiadau yn cadarnhau eu penderfyniad i gymeradwyo'r cais drwy lythyr. Pe bai gofyn i chi dalu tâl gwasanaeth, bydd disgwyl i chi gwblhau a dychwelyd y 'Ffurflen Tâl Gwasanaeth Addasiadau' sydd wedi'i gynnwys gyda'r llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad. (Gweler 'Taflen Wybodaeth Tâl Gwasanaeth Addasiadau' am ragor o wybodaeth am Daliadau Gwasanaeth Addasiadau). Unwaith bydd y ffurflen wedi ei ddychwelyd, bydd CCG yn trefnu arolygwr/contractwr i ymweld â'ch eiddo i asesu'r gwaith sydd angen ei wneud. Bydd CCG wedyn yn prynu'r offer addasiadau, a bydd dyddiad cyfleus ar gyfer gosod yn cael ei drefnu.

Gweler ein Polisi Addasiadau ar: www.ccgwynedd.org am ragor o fanylion.

Am fwy o wybodaeth

Cysylltwch â ni ar **0300 123 8084**, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu ar ein gwefan www.ccgwynedd.org

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Making a Request for Adaptions

If you or anybody living in your home has a disability or health concern that means you have problems going out, difficulty in moving about or carrying out everyday tasks safely in your home, then Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) may be able to help.

What is an Adaptation?

An adaptation is a physical alteration to your home which helps you get in and out of your home, improves mobility within your home and allows you to have safe access to essential facilities in the main areas of your home. There are two types of adaptations; a Minor Adaptation and a Major Adaptation.

Minor Adaptations

Examples of Minor Adaptations include:

- Grab rails
- Mop stick rails
- Key safe
- Half steps
- Extra lighting

These adaptations can be requested by contacting CCG direct on 0300 123 8084 or by e-mailing enquiries@ccgwynedd.org.uk.

Major Adaptations:

Examples of Major Adaptations include:

- Stairlift
- Walk in shower
- Wet room
- Ramp
- Widening doorways

These adaptations will require an assessment and a recommendation from an Occupational Therapist (OT).

Please Note:
If you receive an adaptation that requires servicing and maintenance (such as a stairlift, though floor lift or ceiling track hoist etc), you will be required to pay a weekly service charge. Please see the 'Adaptations Service Charge Factsheet' for more information on service charges.

How do I get an assessment for a Major Adaptation?

You can request an OT assessment by calling your Local Authority's Social Services Department.

An assessment will determine the type of adaptation you need. Alternatively, the OT will advise on the best techniques, equipment and services to meet your needs.

What happens when the OT recommends a Major Adaptation?

The request is presented at CCG's Adaptations Panel. The Adaptations Panel will then recommend the most appropriate solution to meet your needs.

As well as an assessment from the OT, prior to the Adaptations Panel, you may be visited by a member of the Tenancy Services team in order to assess your home/ family set-up. The Tenancy Services team will offer housing advice and answer any questions you may have with regards to your referral for an adaptation.

Continues >>

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Making a Request for Adaptations

The OT or Adaptations Panel may decide that adapting your home may not be the best option to meet your long term needs. They will consider other possible solutions, which may include moving to a more suitable property which will meet your long term needs.

If your request for an adaptation is not approved, the Adaptations Panel will confirm their decision to refuse the request by letter. Please don't hesitate to contact CCG on 0300 123 8084 to discuss the Panel's decision.

What happens next if the request for a Major Adaptation is approved?

The Adaptations Panel will confirm their decision to approve the request by letter. If you are required to pay a service charge, you will be expected to complete and return the 'Adaptations Service Charge Form' that's included with the decision letter. (Please see the 'Adaptations Service Charge Factsheet' for more information on Adaptations Service Charges). Once the form is returned, CCG will arrange for a surveyor/ contractor to visit your property to assess the work needed. CCG will then purchase the adaptations equipment, and a convenient installation date will be arranged.

Please see our Adaptations Policy which is available on: www.ccgwynedd.org for more details.

For more information

Contact us on **0300 123 8084**, enquiries@ccgwynedd.org.uk or on our website www.ccgwynedd.org.

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD